PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 9 MAWRTH 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jenkins(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Philippa Hill-John, Lent, Mackie a/ac McGarry |

59 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Carter a Gibson.

60 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

61 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2022 a 21 Chwefror 2022 yn gofnodion cywir.

62 : PROSES CYNNAL A CHADW AC ATGYWEIRIO TAI'R CYNGOR

Cafodd aelodau wybod fod Aelodau'r Pwyllgor, wrth ystyried Rhaglen Waith y Pwyllgor, wedi mynegi diddordeb i asesu sut mae'r Cyngor yn rheoli ansawdd ei stoc dai presennol. Gofynnodd yr aelodau am friff gan y tîm tai a chomisiynwyd y gwasanaeth ymchwil craffu i gynnal arolwg gyda thenantiaid y cyngor.

Roedd y nodyn briffio a ddarparwyd gan y gwasanaeth ac ymatebion yr arolwg ymchwil craffu wedi'u cynnwys ym mhapurau'r Aelodau.

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, Sarah McGill, Helen Evans ac Ellen Curtis o'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Chymunedau ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny gofynnwyd i Aelodau am unrhyw gwestiynau, sylwadau neu arsylwadau.

Cyfeiriodd yr aelodau at y 62% o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn anfodlon gyda chyflwr mewnol eu heiddo. Eglurodd swyddogion fod hyn yn gyfuniad o oedran rhai o stoc dai'r Cyngor a disgwyliadau tenantiaid.

Cyfeiriodd yr aelodau at y gwahaniaeth mewn ymatebion i'r ddau arolwg a lefelau'r anfodlonrwydd. Eglurodd swyddogion eu bod yn croesawu'r arolygon ac ymatebion y tenantiaid i helpu gwella'r gwasanaeth wrth symud ymlaen.

Cyfeiriodd yr aelodau at ôl-groniad y gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio a gofynnwyd sut roedd Swyddogion yn teimlo am y sefyllfa bresennol. Esboniodd swyddogion nad dyna'r sefyllfa yr oeddynt am fod ynddi, roeddent am fod â ffigwr ôl-groniad is a chyfradd ymateb cyflymach, esboniwyd bod ganddynt nifer o fesurau ar

waith i fynd i'r afael â hyn megis cyfarfodydd rheoli mwy rheolaidd, mwy o adnoddau a phroses uwchgyfeirio a ddylai weld gwelliannau.

Gan gyfeirio at reoli disgwyliadau tenant, gofynnodd Aelodau a gafodd tenantiaid eu cynghori ynglŷn â'r oedi a'r ôl-groniad pan adroddwyd am waith atgyweirio, ac roeddent yn falch o glywed eu bod wedi cael eu cynghori.

Wrth ystyried y nifer cynyddol o dai Cyngor, roedd aelodau'n poeni a oedd digon o adnoddau yn y gwasanaeth. Dywedodd swyddogion y gallan nhw is-gontractio weithio a bod ganddynt gontractwyr y gallant ddod â hwy i mewn os oes angen.

Roedd yr aelodau'n falch o nodi y dylai cronfa fechan o gontractwyr fod yn ei lle erbyn Gorffennaf 2022 ac ailadroddwyd eu ceisiadau blaenorol bod y contractwyr hyn, lle bo hynny'n bosibl ac yn ymarferol, yn lleol ac yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Gofynnodd yr aelodau am fwy o wybodaeth am yr Academi Atgyweirio gan eu bod o'r farn y gallai hyn fod yn allweddol i leihau defnydd contractwyr a chynyddu'r adnodd yn y tŷ.

Roedd yr aelodau'n falch o glywed y gellid adrodd am waith atgyweirio 24/7, 365 diwrnod yr wythnos a gofyn am eglurder ar sut y gellid gwneud hyn cyn gweithredu'r gwasanaeth Fy Atgyweirio a oedd i fod i fynd yn fyw yng Ngwanwyn 2023.

Gofynnodd aelodau a oedd tenantiaid yn ymwybodol o gyfrifoldeb y Cyngor o ran gwaith atgyweirio. Dywedodd swyddogion bod tenantiaid yn cael copi o Safonau Atgyweirio Ymatebol ar ddechrau eu tenantiaeth. Ystyriodd aelodau y gallai hyn gael ei ailgyhoeddi i denantiaid hir sefydlog.

Gofynnodd aelodau am wybodaeth am nifer y ceisiadau atgyweirio mae'r Cyngor yn eu derbyn. Doedd gan swyddogion ddim y wybodaeth hon wrth law ond fe gynigiwyd i ddod â hynny i Bwyllgor yn y dyfodol.

Gofynnodd yr aelodau a oedd mesurau ataliol megis fentiau aer yn cael eu gosod mewn eiddo. Esboniodd swyddogion na chafodd hynny ei wneud yn rheolaidd oherwydd ffactorau amrywiol fel gwahaniaethau mewn eiddo a ffordd o fyw tenantiaid. Ystyriodd yr aelodau y gellid eu gosod mewn eiddo lle mae problemau gyda thamprwydd a chyddwysiad, yn enwedig os yw'r eiddo hyn yn dod yn wag i fod yn barod ar gyfer y tenant nesaf.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

## 63 : CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI AR GYFER 2022-23

Cynghorwyd aelodau bod yr eitem hon yn eu galluogi i graffu cyn penderfynu ar Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2020-2021 a fydd yn cael ei ystyried gan y Cabinet ar 10 Mawrth.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, Sarah McGill, Helen Evans, Dave Jacques a Gill Brown ar gyfer yr eitem hon

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny gofynnwyd i Aelodau am unrhyw gwestiynau, sylwadau neu arsylwadau.

Croesawodd aelodau'r ffaith bod argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor y llynedd wedi eu derbyn o ran cynnwys gwybodaeth am faterion ariannol, mesurau lliniaru a dadansoddi sensitifrwydd.

Ystyriodd aelodau a allai fod mwy o wybodaeth yn cael ei chynnwys ar risgiau a sut maen nhw'n cael eu monitro, a hefyd mwy o wybodaeth am fonitro’r cyllid Cyfrif Refeniw Tai. Cytunodd swyddogion gyda hyn ac fe wnaeth yr Aelodau groesawu awgrymiadau Swyddogion y gallai'r cynllun hefyd gynnwys mwy o fanylion ar drefniadau llywodraethu.

Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd bod y cynllun yn ddarllenadwy ac yn hygyrch ac roeddent o'r farn y gallai fod yn fwy cryno.

Cyfeiriodd aelodau at ddatgarboneiddio a'i fod yn sgôr risg oren, o ystyried yr her y raddfa a chostau. Esboniodd swyddogion nad oedd hyn yn cyfeirio at stoc dai cyfan y Cyngor, ac roedd Aelodau o'r farn y dylid newid y geiriad i adlewyrchu hyn.

Wrth drafod effeithiau Covid-19, bu aelodau'n ystyried y dylid adolygu'r sgôr werdd o ystyried y byddai effeithiau'r pandemig yn cael eu teimlo am beth amser.

Gan gyfeirio at ddigartrefedd, nododd aelodau bod y cynllun yn cyfeirio at adolygu sut mae eiddo'n cael eu dyrannu. Esboniodd swyddogion ei fod yn cael ei adolygu fel rhan o'r Dull Ailgartrefu Cyflym a chynigiwyd i ddod â hyn i bwyllgor yn y dyfodol.

Roedd yr aelodau'n falch o weld y meini prawf, a oedd yn cael eu defnyddio gan y Cyngor wrth brynu eiddo, yn adlewyrchu anghenion newid trigolion Caerdydd.

Bu aelodau'n trafod cynlluniau modiwlar fel Croft Street a chafwyd cyngor y byddai cynlluniau o'r fath yn parhau i gael eu defnyddio wrth symud ymlaen. Nododd aelodau fod cynlluniau modiwlar yn ddrytach i'w hadeiladu, ar hyn o bryd ond maent yn gyflymach i'w hadeiladu a'u cyflawni. Nododd aelodau fod hyn yn helpu i ddod ag incwm rhent i'r cyngor yn gynt gan fynd i'r afael hefyd â'r angen am dai'r Cyngor yn gynt.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

## 64 : Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RAGLEN DATBLYGU ADEILADAU NEWYDD - TREM Y MÔR A’R CYFEIRIAD YN Y DYFODOL

Cynghorwyd yr aelodau bod yr eitem hon yn eu galluogi i graffu cyn penderfynu ar yr adroddiad cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet ar y 10fed o Fawrth.

Cynghorwyd aelodau, oherwydd gwybodaeth gyfrinachol a geir mewn tri o'r Atodiadau, byddai'r eitem hon yn cael ei hystyried mewn dwy ran ac os oedd angen gofyn unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r costau neu gyngor cyfreithiol ar gyfer Cilgant Wyndham, bydda’r rheiny'n cael eu cymryd mewn sesiwn gaeedig.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, Sarah McGill, Helen Evans, Dave Jacques a Gill Brown ar gyfer yr eitem hon

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny gofynnwyd i Aelodau am unrhyw gwestiynau, sylwadau neu arsylwadau.

Cilgant Wyndham

Nododd yr aelodau fod y cynllun wedi'i ohirio'n flaenorol oherwydd gwrthwynebiadau cynllunio a gofyn am sicrwydd y gallai nawr gael ei gyflawni. Dywedodd swyddogion bod y materion blaenorol wedi'u datrys.

Roedd yr aelodau’n pryderu bod dyluniad y cynllun yn y papurau yn wahanol i'r dyluniad a welwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor. Dywedodd swyddogion nad oedd y dyluniad terfynol wedi ei benderfynu eto.

Roedd aelodau'n falch o glywed, pe bai adeiladwaith modiwlar yn cael ei ddefnyddio, yna dylai'r gwaith ddechrau ar y cynllun yn 2022 gyda thenantiaid yn symud i mewn tua 12 mis yn ddiweddarach.

Trem y Môr

Nododd yr aelodau eu bod wedi cael gwybod yn flaenorol y byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno fesul cam, gyda chontractwyr yn cael eu penodi ar gyfer pob cam; fodd bynnag, cyfeiriodd y papurau at un contractwr ar gyfer yr holl gynllun. Esboniodd swyddogion y dylai'r newid hwn gwtogi'r broses, bod yn llai dwys o ran adnoddau i'r cyngor ac o bosib yn llai costus hefyd.

Mynegodd yr aelodau bryder am gostau cynyddol y cynllun a gofynnwyd am sicrwydd ynghylch y gallu i'w gyflawni. Eglurodd swyddogion fod y costau presennol yn adlewyrchu amodau presennol y marchnadoedd a oedd yn cynyddu ac y gallai o bosib ddyblu. Ychwanegodd swyddogion mai mater lliniaru oedd datblygiad graddol y cynllun, a oedd yn golygu pe bai'n rhaid i'r Cyngor dynnu'n ôl oherwydd costau cynyddol, dim ond rhannau o'r cynllun fyddai heb eu gorffen.

Holi'r aelodau am yr hyder wrth gyflawni'r cynllun a dywedodd y Swyddogion eu bod yn hyderus, bod ganddynt brofiad o gyflwyno cynlluniau partneriaeth.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

65 : BUSNES Y PWYLLGOR

Gofynnwyd i aelodau nodi y byddai'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen y CDLIN yr wythnos nesaf cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.

Dywedodd y Prif Swyddog Craffu wrth yr Aelodau y byddai'r Adroddiad Blynyddol Craffu unwaith eto yn adroddiad cyfun o'r pum pwyllgor craffu eleni. Byddai gan bob pwyllgor dwy dudalen i amlinellu cyflawniadau allweddol ac i edrych yn ôl ar y gwaith

a wnaed gan y Pwyllgor.  Gofynnwyd i'r aelodau gynghori'r Prif Swyddog Craffu am unrhyw newidiadau oedd eu hangen ar gyfer y geiriad drafft.

Esboniodd y Prif Swyddog Craffu y byddai'n anfon e-bost yn rhestru holl bynciau ac ymholiadau'r Pwyllgor a gallai'r Aelodau nodi pa uchafbwyntiau yr oeddent am gael eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol Craffu.

66 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

67 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I'w drefnu.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 pm